Newyddlen YA Gwynedd Newsletter

@YAGwynedd
@bywniachgwynedd
@YACymru

Cynhadledd YA Gwynedd

Yn dilyn y tywydd oer yn ddiweddariad roedd rhaid gohurio y gynhadledd Mawrth 1af. Gallwn gadarnhau fod y Gynhadledd wedi ei ail-drefnu ar gyfer Dydd Gwener, Mawrth 23 yn **Plas Heli, Pwllheli.**

Rydym yn edrych ymlaen i'ch cyfarfod a'ch croesawy i'r Tim.

Mae'n gaddo fod yn ddiwrnod llawn hwyl gyda nifer o weithdai arweinyddol ar eich cyfer. Byddwn yn croesawy sawl gwestai arbennig gan gynnwys Jessica Kavanagh Williams (Rygbi Merched Cymru), Tom Davis (Athletwr Olympaidd Jiwdo) a Jayne Lloyd (Trefnydd Marathon Eryri) i enwi rhai.

Cofiwch eich crys t ac eich ffon symudol!
PWYSIG - DYDDIAD A LLEOLIAD NEWYDD!

Cymry Coch - Gemau'r Gymanwlad 2018

Diwrnod i ddangos ein cefnogaeth fel Gwlad i Dim Cymru fydd yn cystadlu yng Ngemau'r Gymanwlad yn Awstralia eleni - Bydd Cymry yn gwisgo dilledyn coch Mawrth 23ain, 2018. **#CymryCoch #WeAreRed**

Cwrs Arweinydd Chwaraeon 2017-18

I bawb fynychodd gwrs mis Hydref bydd angen i chi sicrhau fod pob elfen o'r pecyn gwaith a 30 awr gwirfoddol wedi ei gwblhau cyn byddwch yn gallu derbyn eich tystysgrif Arweinydd Chwaraeon - Lefel 2,.

Mae cwrs wedi ei drefnu i ddalgylch Meirionnydd yn ystod Gwyliau Pasg (Ebrill 3 a 4, 2018).

Cystadleuaeth Sportshall Athletau Ysgolion Gwynedd

Roedd Llysgenhadon Ifanc yn brysur gwirfoddoli mewn cystadleuaeth athletau dan-do eleni. Gyda dros 500 o gystadleuwyr roedd y llysgenhadon yn brysur arwain, trefnu, didoli a chyflwyno trwy'r diwrnod. Roedd y Llysgenhadon wedi gwneud argraff wych ac yn rhan hanfodol i sicrhau trefniadau llwyddiannus ar y diwrnod. Diolch.

Calendr Digwyddiadau 2018

Gwyl Rygbi Cynradd Gwynedd

Porthmadog - 6

Bala - 8

Caernarfon - 9

Bethesda - TBC

Pwllheli - 22

Gala Nofio Cynradd Arfon

Pwll Caernarfon / Bangor

Mawrth 16-17

Cynhadledd YA Gwynedd

Plas Heli, Pwllheli

Mawrth 23

Ras Llwybr 6 Portmeirion

Mawrth 24, 2018

Noson o Ddawns

Galeri, Caernarfon

Ebrill 19

@YAGwynedd
@bywniachgwynedd
@YACymru
#YAGwynedd

Newyddlen YA Gwynedd Newsletter

Llysgenhadon Aur yn mwynhau Zip World

Cafodd Llysgenhadon Aur Gwynedd fwynhau gweithgaredd yn Zip World yn ystod hanner tymor Chwefror eleni fel gwobr am eu gwaith di-ddiwedd trwy'r flwyddyn ac am drefnu Cynhadledd Gwynedd eleni.

Oriau Gwirfoddol Llysgenhadon Ifanc Gwynedd

Mae'n bwysig cofnodi eich holl oriau gwirfoddol (boed yn ystod oriau ysgol neu yn y gymuned) i chi gael cydnabyddiaeth am eich ymdrech. Os byddwch wedi cwblhau 50 awr neu fwy byddwch yn gallu cael tystysgrif cenedlaethol sydd yn hynod fuddiol ar gyfer eich C.V.

Rydym yn rhagdybio fod Llysgenhadon Ifanc Gwynedd wedi cwblhau dros 4000 o oriau ers mis Medi 2017!!! GWYCH!

Llysgenhadon Ysgol Pendalar

Mae 4 o lysgenhadon ifanc Ysgol Pendalar wedi bod yn brysur yn eu rolau newydd ac wedi bod yn llwyddiannus i dderbyn Grant Gwirfoddolwyr Ifanc i archebu offer chwaraeon newydd i'r ysgol. Da Iawn Chi!

Anna Whiteside Thomas - Prif Weinidog Nesaf?

Cafodd Anna y cyfle i gysgodi Aelod Cynulliad Sian Gwenllian yn ystod diwrnod #LeadHERship oedd wedi cael ei drefnu gan Chwarae Teg i annog mwy o ferched ifanc o Gymru i fyd Gwleidyddiaeth. Cafodd Anna ddiwrnod yn cysgodi Sian Gwenllian yn y senedd yn Gaerdydd. Amdani Anna!





@YAGwynedd
@bywniachgwynedd
@YACymru
#YAGwynedd

Newyddlen YA Gwynedd Newsletter

200 Awr !!

Llongyfarchiadau Mawr i Gwen Morris (Syr Hugh) a Beca Llwyd (Brynrefail) am gyflawni 200 o oriau gwirfoddol drwy chwaraeon yng Ngwynedd.

Cwrs Arweinydd Tenis

Llongyfarchiadau i'r 5 llysgennad gwblhaodd cwrs arwain tenis yn ddiweddar. Diwrnod llawn hwyl gyda hyfforddwr LTA Tenis/ Tenis Cymru yn Ganolfan Tenis Arfon. Bydd diwrnod agored racedi a chlybiau dalgylch Arfon ddydd Sul, Mawrth 25 gan gynnwys tenis, golf, tenis bwrdd, badminton a sboncen. Mynediad AM DDIM a cyfle i gasglu oriau gwirfoddol os byddwch ar gael.

Gemau Rygbi Rhyngwladol - 6 Gwlad

Llysgennad Efa Williams (Ogwen) sydd yn aelod o garfan RGC wedi bod yn rhan o dim cefnogol ar y cae yn Parc Eirias yn ystod gemau Merched Cymru a Bechgyn dan 20 Rygbi Cymru yn erbyn yr Alban yn ddiweddar. Profiad Gwych ac Oer!!

Jody Cain

Syr Hugh Owen

Mae Jody Cain yn gwirfoddoli dros 5 awr yr wythnos yn hyfforddi dawnsio disgo yng Nglwb Dawnsio Cymunedol Anti Karen yn Caernarfon. Mi fydd Jody wedi cwblhau dros 100 awr mewn dim!

Nid yn unig mae Jody yn annog eraill i gadw yn heini ond mae Jody yn athletrwaig o fri ei hun yn cymeryd rhan mewn sawl gweithgaredd gan gynnwys chwarae pel droed, rhedeg a dawnsio.

Da iawn Jody!

Newyddlen YA Cynradd Gwynedd
Primary Newsletter

@YAGwynedd
@bywniachgwynedd
@YACymru
#YAGwynedd

Cynllun Playmakers / Sports Leaders

Mae Tim Chwaraeon am Oes yn bwriadu cynnig hyfforddiant 'Playmaker' i pob disgybl ym mlwyddyn 5 a 6 ysgolion cynradd Gwynedd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Gwobr 'PlayMaker' yn gwrs gwych i gyflwyno arweinyddiaeth i ddisgyblion dros 9 oed. over.

Mae'r cynllun wedi ei ddylunio i ddatblygu sgiliau arwain disgyblion trwy ddulliau addysgol gwahanol yn defnyddio chwaraeon.

Bydd y cwrs am ddim i ddisgyblion Gwynedd a byddwn yn danfon mwy o fanylion am y cynnig i chi yn y dyfodol agos.

Gwyl Rygbi Ysgolion Cynradd

Gwyl Newydd eleni i ddisgyblion blynyddoedd 3 a 4 sydd yn cydfynd gyda Pencampwriaeth Rygbi 6 Gwlad.

Gwyl Porthmadog	**Mawrth 6**
Gwyl Bala	**Mawrth 7**
Gwyl Caernarfon	**I'w Gadarnhau**
Gwyl Bethesda	**I'w Gadarnhau**
Gwyl Pwllheli	**Mawrth 22**

Newyddion

Cofiwch gysylltu i rannu eich newyddion fel Llysgenhadon Efydd! Mae'n gyfle da i rannu ymarfer da, syniadau newydd a dathlu llwyddiant. Cysylltwch gyda mi:

Ebostiwch: hannahmedihughes@gwynedd.llyw.cymru

Tudalen Facebook / Twitter

@YAGwynedd

Cofiwch gadw mewn cysylltiad, rhannwch eich straeon, gadewch mi wybod beth mae Llysgenhadon Gwynedd yn wneud a chofiwch digon o luniau!!!

@bywniachgwynedd @YAGwynedd @YACymru

Cara a Ioan

Llysgenhadon Bro Tegid

Mae Llysgenhadon Ysgol Bro Tegid yn brysur ym myd chwaraeon yn hyrwyddo a chymeryd rhan mewn chwaraeon. Mae'r ysgol wedi bod yn llwyddiannus mewn sawl cystadleuaeth yn ddiweddar gan gynnwys cystadleuaeth 'Sportshall' ble mae'r ysgol wedi bod yn fuddugol am y chweched mlynedd yn olynol.

Dywedodd Cara "Rwyf wrth fy modd yn hysbysebu yr ysgol o'r gweithgareddau a chystadleuthau Chwaraeon mae'r ysgol yn eu gwneud, oherwydd mae'n codi brwdfrydedd a diddordeb yn y plant"

Ychwanegodd Ioan "Rydym wedi creu wal chwaraeon i hysbysebu gweithgareddau yn ein ysgol ac rydym yn annog pawb i wneud y Trac Dal I Fynd er mwyn datblygu ffitrwydd ac iechyd. Mae hyd yn oed y staff yn cymeryd rhan erbyn hyn!"